

Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

31 Mawrth 2017

Annwyl Aelod Cynulliad,

Ar 23 Mawrth, cyfarfu'r Bwrdd Taliadau i drafod gwaith yn y dyfodol a fydd yn llywio ein hagweddau am weddill tymor y Bwrdd, ac i ystyried yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad. Rhoddir crynodeb yma o drafodaeth a phenderfyniadau'r Bwrdd yn dilyn ein hymgyngoriadau diweddaraf, a gwybodaeth gryno am ein rhaglen waith.

Cyflogau Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, 2017-18

Cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2.1 y cant ar gyfer 2017-18 yn unol â ffigurau dros dro 2016 ar gyfer y newid mewn enillion canolrifol yng Nghymru, fel y cânt eu mesur gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Bydd y newid yn cael ei weithredu ar 1 Ebrill 2017. Mae hwn yr un mynegai ag a ddefnyddir yn awtomatig ar gyfer cyflogau Aelodau a Deiliaid Swyddi.

Nododd y Bwrdd ymateb yn ymwneud â'r ffaith y gallai'r newid yn natur gwleidyddiaeth ddatganoledig a'r gofynion ychwanegol ar Aelodau'r Cynulliad effeithio ar staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a'r cymhlethdodau yn ymwneud â darpariaeth ar gyfer Uwch Gynghorwyr. Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i'r materion hyn yn fwy manwl yn ein rhaglen waith yn ddiweddarach eleni.

Fel a nodir yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, caiff cyflogau Aelodau a Deiliaid Swyddi eu haddasu'n awtomatig bob blwyddyn yn unol â'r newid mewn enillion canolrifol yng Nghymru, fel y'u mesurwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Bydd cyflogau Aelodau a deiliad swyddi yn cynyddu o fis Ebrill, felly, yn yr un modd â chyflogau staff cymorth.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6331

E-bost/Email: Taliadau@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Costau swyddfa ar gyfer 2017-18

Cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans costau swyddfa 1.2 y cant yn 2017-18, yn unol â'r amcangyfrif ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Tachwedd 2016.

Gall Aelodau wneud cais ysgrifenedig i'r Cadeirydd am Dreuliau Eithriadol os ydynt yn credu bod y lwfans yn annigonol ar gyfer eu hamgylchiadau penodol.

Lwfansau preswyl ar gyfer 2017-18

Trafododd y Bwrdd Wariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2017-18 yn ein cyfarfod ym mis Ionawr ac, i hysbysu ein penderfyniad ynglŷn â'r cymorth ar gyfer Aelodau'r ardal allanol, cynhaliwyd rhagor o ymchwil i'r prisiau rhent ym Mae Caerdydd er mwyn sicrhau bod y cynnig yn ystyried y ffigyrau diweddaraf o'r sector rhentu.

Ymgynghorodd y Bwrdd ag Aelodau ar 15 Mawrth ynglŷn â chynnig i gynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl, o'i lefel bresennol o £735 y mis i £775 y mis i adlewyrchu amgylchiadau presennol yn y farchnad eiddo leol.

Hoffai'r Bwrdd atgoffa Aelodau bod yr [ymgynghoriad](#) yn dod i ben ar 13 Ebrill 2017.

Y wybodaeth ddiweddaraf

Diogelwch swyddfeydd etholaeth

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod adolygiad diogelwch wedi cael ei gynnal trwy holl swyddfeydd etholaeth yr Aelodau yng Nghymru. Nododd yr adolygiad nifer o gamau sy'n angenrheidiol i wella diogelwch. Roedd y Bwrdd yn bryderus y cafwyd oedi cyn gosod offer diogelwch mewn rhai swyddfeydd. Byddai'r Bwrdd yn hoffi pwysleisio'r angen i sicrhau ar frys bod eich swyddfeydd yn ddiogel. Mae'r Bwrdd wedi cario'r cyllid ar gyfer darpariaethau diogelwch drosodd i'r flwyddyn ariannol newydd, 2017-18.

Goramser a hawliwyd gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

Ystyriodd y Bwrdd y ffigurau diweddaraf ar gyfer goramser a hawliwyd gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a chytunodd i fonitro nifer y ffurflenni goramser a gyflwynir gan staff cymorth. Byddai'r Bwrdd yn hoffi pwysleisio pa mor bwysig yw cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, a sicrhau bod Aelodau yn cyflawni eu dyletswydd gofal fel cyflogwyr.

Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad

Trafododd y Bwrdd y ffordd orau o ymgysylltu â Phanel Arbenigol y Llywydd ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad a chytunwyd bod angen cael

cydweithio agos ar unrhyw faterion a allai effeithio ar y penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, yn enwedig mewn perthynas â'n gwaith ar ffactorau sy'n cymell pobl i sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad, a'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny.

Seminar ar weithrediad cyrff taliadau ar draws y DU ac Iwerddon

Ym mis Mai, bydd y Bwrdd yn cynnal seminar gyda chyrff taliadau o bob cwr o'r DU ac Iwerddon i rannu arfer gorau, trafod materion allweddol a dysgu a deall sut mae cydweithwyr yn yr amryw ddeddfwrfeydd yn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil rhagor o ddatganoli a newidiadau yn yr hinsawdd economaidd.

Ffactorau sy'n cymell pobl i sefyll i gael eu hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny

Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil yn fuan i ddod i ddeall yn well pa agweddau a allai rwystro unigolion rhag sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad, a pha agweddau o fewn cylch gwaith y Bwrdd sy'n denu pobl i'r swydd.

Byddwn yn rhoi gwybod i Aelodau pan fydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cael ei benodi.

Egwyddorion sylfaenol y Penderfyniad a'i effeithiolrwydd

Yn unol â'n hymrwymiad i adolygu'n rheolaidd berfformiad y Bwrdd ac effaith ein penderfyniadau, byddwn yn cynnal adolygiadau o'r darpariaethau presennol a gafodd eu cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad. Rydym yn awyddus i glywed gennych chi a'ch staff cymorth ynglŷn â manteision y Penderfyniad presennol a ffyrdd posibl o'i wella. Yn ystod y gwanwyn byddwn yn cyhoeddi holiadur ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r Penderfyniad presennol a'r egwyddorion sy'n sail i ddarpariaeth cymorth ariannol, ac yn benodol a yw'r dull gweithredu presennol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfarwyddyd a hyblygrwydd, gan rymuso Aelodau i ddefnyddio arian yn ddoeth ond gan oruchwylio'n briodol ar yr un pryd.

Yn y lle cyntaf, byddwn yn gweithio'n agos gyda Grwpiau Cynrychiolwyr yr Aelodau a staff cymorth yr Aelodau i dreialu holiaduron hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â'r meysydd yr hoffech iddynt gael sylw. Yn y dyfodol, bydd canlyniadau'r holiaduron hyn a thrafodaethau wyneb yn wyneb yn helpu i lunio ein blaenraglen waith.

Cyfarfu Grŵp Cynrychiolwyr newydd staff cymorth Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf ar 23 Mawrth a bydd Grŵp Cynrychiolwyr newydd yr Aelodau yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 4 Ebrill.

Byddwn yn sicrhau bod yr Aelodau, eu staff cymorth a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gwbl ymwybodol o'r camau a gymerwn, ac yn cael cyfle i gymryd rhan ar adegau allweddol.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer.

Os hoffech drafod y mater hwn gyda mi, neu gydag un o'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Primarolo', written in a cursive style.

Y Fonesig Dawn Primarolo
Cadeirydd
Y Bwrdd Taliadau